Centre of expertise on child sexual abuse



# Blaenoriaethu cam-drin plant yn rhywiol

## 10 Medi 2026 – Stadiwm Dinas Abertawe

**Croeso i ddiwrnod diddorol o gyflwyniadau ar y cyd â'r *Centre of Expertise on Child Sexual Abuse* (Canolfan y CSA). Wedi'i drefnu ar y cyd â:**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Safeguarding Board

West Glamorgan Safeguarding Board
Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

**Bydd yr achlysur teithiol hwn yn eich helpu chi a'ch cydweithwyr i nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddyn nhw, a gweithio'n hyderus gyda phlant a theuluoedd.**

Yn ystod y dydd byddwn ni'n eich cyfeirio at gyngor a chanllawiau defnyddiol i'ch helpu i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddioddefwyr, goroeswyr a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol. Edrychwch ar yr amserlen lawn isod.

9:30 AM

**Croeso**
Chris Frey-Davies

9:35 AM

**Cyflwyniad**
Artie Meakin a Taryn Stephens

9:50 AM
Prif Araith 1

**Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol**
May Baxter-Thornton

Mae'r brif araith hon yn ystyried effaith gydol oes cam-drin plant yn rhywiol ar y plentyn, y glasoed a'r oedolyn. Mae May yn defnyddio ei phrofiad ei hun o gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod yn amgylchedd y teulu i drafod y stigma a'r beirniadaethau sy'n wynebu'r rhai sy'n datgelu achosion o gam-drin.

10:45 AM

Egwyl a rhwydweithio

11:15 AM
Prif Araith 2

**Cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru: Heriau a chyfleoedd allweddol wrth ymarfer**

Nici Evans a Sharron Wareham

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae angen i ni ddeall achosion, cwmpas, hyd a lled ac effaith y cam-drin yn iawn. Mae ymwybyddiaeth gynyddol wedi bod o gam-drin plant yn rhywiol a'i effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae yna lawer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu ar sut y gallwn ni amddiffyn a chefnogi orau'r rhai sydd wedi'u heffeithio ganddo. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth genedlaethol 10 mlynedd ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â chynllun cyflawni, ym mis Mawrth 2026. Dyma gynllun uchelgeisiol sy'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dull system gyfan, cynhwysfawr o fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol. Bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth Cymru i arwain y gwaith hwn a darparu'r adnoddau ar ei gyfer yn y tymor hir, yn ogystal ag ymrwymiad ystyrlon parhaus gennyn ni i gyd yn y sectorau statudol a gwirfoddol i roi'r cynllun ar waith yn rhan o'n polisïau ac wrth ymarfer.

Fodd bynnag, fel gydag unrhyw strategaeth, mae ei llwyddiant yn ddibynnol ar sut y caiff ei rhoi ar waith, ac mae'r sesiwn hon yn darparu'r cyd-destun i ni fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru ar y cyd. Byddwn ni'n rhoi trosolwg o'r hyn rydyn ni'n ei wybod am hyd a lled cam-drin plant yn rhywiol yn lleol ac yn genedlaethol; y cyd-destunau y mae cam-drin rhywiol yn digwydd ynddyn nhw; nodweddion y rhai sydd wedi'u heffeithio ganddo; a phwy sy'n cyflawni cam-drin rhywiol. Byddwn ni'n ystyried yr heriau allweddol sy'n ein hwynebu yng Nghymru wrth i ni gychwyn ar roi'r strategaeth ar waith a'r heriau y

mae gweithwyr proffesiynol yn eu hwynebu wrth nodi ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Bydd hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer gweithdai'r prynhawn.

12:15 PM
Prif Araith 3

## Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Dr Natasha Sabin

Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o Lwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol Canolfan y CSA – ein hadnodd ar-lein deinamig ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i'w helpu i ddeall y camau y gallan nhw eu cymryd i amddiffyn a chefnogi plant a'u teuluoedd. Mae'r Llwybr Ymateb yn nodi sut i ymateb i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ar adegau allweddol yn y prosesau diogelu a chyfiawnder troseddol, gan ganolbwyntio'r ymateb ar ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd drwyddi draw. Ei nod yw rhoi'r grym yn nwylo gweithwyr proffesiynol i ddeall sut y gallan nhw a'u cydweithwyr proffesiynol fynd ati i amddiffyn a chefnogi plant orau. Byddwn ni'n canolbwyntio ar pam mae angen y Llwybr Ymateb, sut y cafodd ei gynllunio, treialu ei roi ar waith a sut y gallwch ei ddefnyddio'n ymarferol. Bydd y sesiwn hon hefyd yn cynnwys ystyriaethau o'r llwybr lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno llwybr cenedlaethol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn ymateb cyson a phriodol pan fo pryder ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Mae hefyd wedi ymrwymo i roi ar waith fframwaith hyfforddi cenedlaethol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r rhain yn gamau cadarn ac arwyddocaol a bydd y sesiwn hon yn trafod y Llwybr Ymateb.

1:00 PM Cinio

2:00 PM
Gweithdai

### A) Cyfathrebu â phlant
Dr Natasha Sabin

Rydyn ni'n gwybod bod gweithwyr proffesiynol a phlant yn wynebu llawer o rwystrau wrth siarad am gam-drin rhywiol. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod sut i adnabod pryd y gallai rhywbeth fod o'i le, ac yn deall sut i roi'r hyder i blant gyfleu'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol i fynd ati, gan ddefnyddio canllawiau Cyfathrebu â Phlant Canolfan y CSA. Byddwn ni'n egluro beth all fod yn digwydd i blant pan maen nhw'n cael eu cam-drin yn rhywiol, beth sy'n eu hatal rhag siarad am eu cam-drin, ac yn bwysicaf oll, beth all gweithwyr proffesiynol ei wneud i helpu plant i siarad am yr hyn sy'n digwydd. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.

### B) Arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol
Paul Burnside

*'Mae gweithwyr proffesiynol yn dibynnu gormod ar blant i ddatgelu ar lafar'* – Adroddiad ar gam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu JTAI 2020.

Bydd y gweithdy hwn yn eich cyflwyno i dempled Arwyddion a Dangosyddion Canolfan y CSA. Mae'r templed yn galluogi gweithwyr proffesiynol i deimlo'n hyderus wrth geisio deall arwyddion a dangosyddion ymddygiad plentyn a sut maen nhw'n cyflwyno'u hunain i eraill, ochr yn ochr ag arwyddion a dangosyddion y person sy'n destun y pryder, a'r hyn a allai fod yn agored i niwed yn nheulu'r plentyn a'r amgylchedd ehangach. Mae'r gweithdy hwn yn cynnwys cyfle i weithio ar y cyd i roi'r templed Arwyddion a Dangosyddion ar waith yn ymarferol, ac i ystyried sut y byddai modd defnyddio'r offeryn hwn yn effeithiol yn eich sefydliad. Mae'r gweithdy hwn ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda rhieni yn unig.

### C) Cynllunio diogelwch mewn addysg
Lorraine Myles

Mae gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn ymdrin â nifer cynyddol o ddigwyddiadau lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol, sef trafodaethau neu weithredoedd rhywiol, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, sy'n amhriodol ar gyfer eu hoedran neu gyfnod eu datblygiad. Maen nhw'n aml yn gwneud hyn heb gyngor digonol neu o gael cyngor sy'n mynd yn groes i'w gilydd ynghylch sut i asesu'r risg i'r plentyn sydd wedi profi niwed, a'r plentyn sydd wedi achosi niwed, a sut i lunio cynllun diogelwch effeithiol.

Bydd y gweithdy hwn yn cyflwyno canllawiau Cynllunio Diogelwch Mewn Addysg Canolfan y CSA, i weithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth i blant yn dilyn digwyddiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol. Nod y canllawiau yw cefnogi gweithwyr proffesiynol wrth ystyried a gwneud penderfyniadau lle bu digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol yn eu lleoliad addysg. Mae'r canllawiau'n rhoi enghreifftiau o sut y gall gweithwyr proffesiynol ymateb orau i anghenion a diogelwch plant pan fydd digwyddiadau'n codi. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol o fyd addysg, asiantaethau sy'n ymwneud â byd addysg, chwaraeon a hamdden, a lleoliadau cysylltiedig eraill.

### D) Gweithio gydag oedolion sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod

Nici Evans

Gall dioddefwyr a goroeswyr achosion o gam-drin plant yn rhywiol gael eu heffeithio mewn ystod eang o ffyrdd, ond mae natur a hyd a lled yr effeithiau maen nhw'n eu profi yn amrywio a ni fydd profiad un person o reidrwydd yn union yr un peth â pherson arall. Gall cam-drin rhywiol effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol dioddefwyr a goroeswyr, perthnasoedd rhyngbersonol a llawer o agweddau eraill ar eu bywydau.

Efallai na fydd rhai goroeswyr a dioddefwyr byth yn siarad am yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw, neu efallai na fyddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n gallu dweud wrth unrhyw un am y cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod. Ond, wrth gael eu gofyn, mae dioddefwyr a goroeswyr yn adrodd yn gyson eu bod eisiau i weithwyr proffesiynol eu gofyn am eu profiadau o gam-drin rhywiol. Mewn ymateb, bydd y gweithdy hwn yn cynnig ffyrdd ymarferol i weithwyr proffesiynol o gefnogi a siarad ag oedolion am gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, trin a thrafod y rhwystrau y gallen nhw eu hwynebu a manteision gofyn y cwestiwn. Mae'n addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion, gan gynnwys y rhai yn y Gwasanaethau i Blant a allai fod yn gweithio gyda'r teulu.

### E) Rheoli risg a thrawma ar ôl troseddu rhywiol ar-lein

Shauna Breen

Bob mis mae cannoedd o deuluoedd yn cael gwybod bod rhiant neu ofalwr wedi cyrchu deunydd sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Deall sut a pham y gall y profiad hwn beri trawma i deuluoedd yw'r cam cyntaf i'w cefnogi'n effeithiol; mae cael yr ymateb proffesiynol cywir yn hanfodol wrth helpu i liniaru'r effaith.

Bydd y gweithdy hwn yn eich cyflwyno i ganllawiau Rheoli Risg a Thrawma Ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein Canolfan y CSA. Bydd yn tynnu sylw at y dystiolaeth ymchwil ar y math hwn o droseddu ac yn darparu cyngor ymarferol i weithwyr proffesiynol ar sut i ddiogelu a chefnogi teuluoedd mewn cyfnod o ofid emosiynol mawr. Mae'r gweithdy hwn yn arbennig o addas ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a swyddogion heddlu, ac ar gyfer y rhai sy'n cefnogi plant neu oedolion sy'n cael eu heffeithio gan droseddu rhywiol ar-lein.

---

3:00 PM — Egwyl

---

3:15 PM
Gweithdai

### A) Cyfathrebu â phlant

Dr Natasha Sabin

Rydyn ni'n gwybod bod gweithwyr proffesiynol a phlant yn wynebu llawer o rwystrau wrth siarad am gam-drin rhywiol. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod sut i adnabod pryd y gallai rhywbeth fod o'i le ac yn deall sut i roi'r hyder i blant gyfleu'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol i fynd ati, gan ddefnyddio canllawiau Cyfathrebu â Phlant Canolfan y CSA. Byddwn ni'n egluro beth all fod yn digwydd i blant pan maen nhw'n cael eu cam-drin yn rhywiol, beth sy'n eu hatal rhag siarad am eu cam-drin, ac yn holl bwysig, beth all gweithwyr proffesiynol ei wneud i helpu plant i siarad am yr hyn sy'n digwydd. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.

## B) Arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol

Paul Burnside

*'Mae gweithwyr proffesiynol yn dibynnu gormod ar blant i ddatgelu ar lafar'* – Adroddiad ar gam-drin rhywiol plant yn amgylchedd y teulu JTAI 2020.

Bydd y gweithdy hwn yn eich cyflwyno i dempled Arwyddion a Dangosyddion Canolfan y CSA. Mae'r templed yn galluogi gweithwyr proffesiynol i deimlo'n hyderus wrth geisio deall arwyddion a dangosyddion ymddygiad plentyn a sut maen nhw'n cyflwyno'u hunain i eraill, ochr yn ochr ag arwyddion a dangosyddion y person sy'n destun y pryder, a'r gwendidau yn nheulu'r plentyn a'r amgylchedd ehangach. Mae'r gweithdy hwn yn cynnwys cyfle i weithio ar y cyd i roi'r templed Arwyddion a Dangosyddion ar waith yn ymarferol, ac i ystyried sut y byddai modd defnyddio'r offeryn hwn yn effeithiol yn eich sefydliad. Mae'r gweithdy hwn ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda rhieni yn unig.

## C) Gweithio gyda rhieni a chynhalwyr (gofalwyr) nad ydynt yn cam-drin

Nici Evans

Mae ymchwil yn dangos bod y gefnogaeth y mae'r plentyn yn ei derbyn gan ei brif ofalwyr a'i deulu ehangach yn un o'r ffactorau pwysicaf sy'n effeithio ar effeithiau tymor hwy cam-drin rhywiol, a bydd yn cael dylanwad mawr ar sut y bydd plentyn yn deall ac yn ymateb i'r hyn sydd wedi digwydd.

Bydd y gweithdy hwn yn cyflwyno gweithwyr proffesiynol i ganllawiau Cefnogi Rhieni a Gofalwyr Canolfan y CSA, a hynny er mwyn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ar sut i gefnogi rhieni orau mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau o gam-drin plant yn rhywiol er mwyn cefnogi eu plentyn. Bydd yr effaith ar rieni/gofalwyr nad ydyn nhw'n cam-drin o gael gwybod bod eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r heriau y gall yr effaith hon ei chael ar fagu eu plentyn yn effeithiol. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda rhieni yn unig.

## D) Ymddygiad rhywiol a cham-drin gan/rhwng brodyr a chwiorydd

Sharron Wareham

Mae sawl agwedd ar gam-drin plant yn rhywiol, ond mae ymchwil yn awgrymu bod llawer iawn ohono'n cael ei gyflawni yn amgylchedd y teulu, gan gynnwys gan frodyr a chwiorydd. Mae ymchwil yn dangos y gall nodi ac ymateb i'r math hwn o ymddygiad rhywiol a cham-drin deimlo'n arbennig o anodd, yn rhannol oherwydd ei fod yn herio canfyddiadau cyffredin o berthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd.

Er bod ganddyn nhw'r sgiliau craidd i ymateb i'r math hwn o ymddygiad rhywiol a cham-drin, mae llawer o weithwyr proffesiynol yn nodi diffyg gwybodaeth neu brofiad i deimlo'n hyderus i wneud hynny'n effeithiol. Ond mewn gwirionedd, mae ymateb i'r materion hyn yn gofyn am yr un sgiliau sydd eu hangen ar gyfer mynd i'r afael â phryderon eraill yn ein hymarfer. Nod y sesiwn hon yw meithrin eich hyder wrth nodi a deall ymddygiad rhywiol brodyr a chwiorydd ac ymateb yn effeithiol, gan ddefnyddio ein canllawiau Ymddygiad Rhywiol Gan/Rhwng Brodyr a Chwiorydd. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

**E) Ymddygiad rhywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein**
Emma Hodgson

Mae'r rhyngrwyd a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dechnoleg bellach yn rhan annatod o fywydau beunyddiol oedolion a phlant. Gall y llwyfannau a'r dyfeisiau digidol hyn gynnig rhyddid a chyfleoedd, ond mae cyd-destunau ar-lein bellach yn rhan o bron pob math o gam-drin plant yn rhywiol, felly mae niwed hefyd yn bosibl. Gall hyn gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol gan bobl dan 18 oed, a all fod yn niweidiol iddyn nhw eu hunain neu blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n bwysig y gall gweithwyr proffesiynol feithrin dealltwriaeth fanwl o ymddygiadau ehangach plentyn yn hyderus – ar-lein ac all-lein – er mwyn ymyrryd.

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i ymddygiad rhywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein. Bydd yn eich cyflwyno i gyd-destun a datblygiad y math hwn o niwed, ac yn dangos pam mae hyn yn bwnc mor bwysig i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohono. Er y bydd y sesiwn yn canolbwyntio’n benodol ar y rhai sy’n arddangos yr ymddygiadau hyn, byddwn ni hefyd yn ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc. Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| 4:20 PM | **Gwerthuso a gorffen** |
| 4:45 PM | **Diwedd** |

# Siaradwyr

### Chris Frey-Davis

**Pennaeth Gwasanaethau i Blant Cyngor Sir Penfro**

Yn adnabyddus am fynd at ei waith mewn ffordd egnïol gan flaenoriaethu pobl, mae Chris wrth ei fodd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr, partneriaid a chymunedau i wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd. Gan gredu’n gryf bod ansicrwydd ac amwysedd yn gyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella, mae Chris yn defnyddio optimistiaeth, chwilfrydedd a synnwyr o hwyl i fynd i’r afael â heriau cymhleth - gan ganolbwyntio bob amser ar obaith, cydweithio a deilliannau gwell.

### Taryn Stephens

**Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**

Taryn Stephens yw Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hi'n rhoi arweinyddiaeth genedlaethol ym maes gofal cymdeithasol, ac yn goruchwylio'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Mae ei gwaith yn cynnwys diogelu ac eiriolaeth, strategaeth y gweithlu, comisiynu a goruchwylio'r farchnad, llwybrau gofal, ac ymgysylltu â dinasyddion a'r sector. Mae hi'n Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig ac yn gyn-Bennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu, gyda phrofiad sylweddol ym maes amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal ac arweinyddiaeth systemau. Mae Taryn yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, gan helpu i ddatblygu a gwella polisïau a deddfwriaeth yn y sector gofal cymdeithasol.

## Artie Meakin

### Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae gan Artie gefndir helaeth ym maes maethu a mabwysiadu yn y sector awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hi wedi cadeirio amryw o baneli maethu a mabwysiadu yn y De, gan sicrhau mynd i'r afael â phob pryder ynghylch diogelu mewn ffordd gadarn. Mae ganddi hefyd brofiad hyfforddi sylweddol ym maes plant sy'n derbyn gofal a diogelu.

## May Baxter-Thornton

### Siaradwr cyhoeddus a hyfforddwr medrus

Nod May yw codi ymwybyddiaeth o gymhlethdodau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Yn ddiweddar, roedd May yn rhan o Banel Ymgynghorol Dioddefwyr a Goroeswyr (VSCP) yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA), a hithau'n rhywun sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol yn ystod ei phlentyndod ac sydd wedi gweithio gyda goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Cafodd ei recriwtio'n benodol oherwydd ei bod wedi cael dros 15 mlynedd o brofiad o weithio ym maes trais domestig, gan gefnogi plant ac oedolion sydd wedi goroesi cam-drin yn ystod plentyndod mewn llochesi ledled Gogledd-ddwyrain Lloegr.

## Emma Hodgson

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Emma yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig ac yn addysgwr ymarfer. Cyn ymuno â Chanolfan y CSA, bu Emma’n gweithio i’r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) am bron i ugain mlynedd ym maes plant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a gwasanaethau adfer ar ôl cam-drin plant yn rhywiol; Treuliodd 15 mlynedd ym maes ymarfer uniongyrchol ac yna'n weithiwr cymdeithasol datblygu. Roedd ei rôl yn addysgwr ymarfer yn canolbwyntio ar gyflwyno hyfforddiant, gweithdai ac adnoddau i ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd ganllawiau a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol ag ymddygiad rhywiol niweidiol â chymorth technoleg, gan gynnwys cwblhau MSc mewn seicoleg fforensig yn trin a thrafod y mater hwn, a'r offer a'r adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Ar hyn o bryd mae Emma yn ymgymryd â PhD yn yr un pwnc.

## Lorraine Myles

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Lorraine yn athrawes gymwysedig gyda bron i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg, o gyfnod allweddol un i bedwar. Gan ddechrau mewn ysgolion prif ffrwd, symudodd Lorraine i'r sector addysg arbennig lle bu'n gweithio'n helaeth gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi profi cam-drin a thrawma. Yn ystod ei gyrfa, mae hi wedi gweithio'n gynghorydd addysg, pennaeth ysgol rithwir awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yna'n bennaeth tair ysgol arbennig yn Ne-ddwyrain Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys lleoliadau ysgolion arferol ac ysgolion preswyl, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgol ddiogel. Roedd gan bob un yn ddarpariaethau pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

## Dr Natasha Sabin

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Natasha yn Seicolegydd Fforensig gyda phrofiad proffesiynol ym maes cam-drin plant yn rhywiol. Mae hi wedi gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid yn ymarferydd a rheolwr sy'n arbenigo mewn ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae Natasha hefyd wedi gweithio mewn ysbytai diogel a lleoliadau carcharu lle mae hi wedi gweithio'n bennaf gyda dynion sy'n oedolion sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol. Mae Natasha yn

ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Birmingham, yn hwyluso sesiynau addysgu i Seicolegwyr Fforensig a Chlinigol dan hyfforddiant.

## Sharron Wareham

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Sharron yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda dros 20 mlynedd o brofiad o weithio gyda phlant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin rhywiol. Cyn ymuno â Chanolfan y CSA, bu’n gweithio’n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-fanteisio’n rhywiol ar blant, a chefnogodd blant a theuluoedd yn y broses adfer yn dilyn cam-drin plant yn rhywiol. Bu Sharron yn rheolwr ar dîm amlddisgyblaethol am 10 mlynedd, gan gefnogi ymatebion i asesiadau ac ymyriadau cam-drin plant yn rhywiol ar draws chwe awdurdod lleol. Mae hi wedi rheoli nifer o brosiectau ymchwil, mae'n awdur a chydawdur canllawiau ymarfer statudol ac anstatudol ar gyfer Llywodraeth Cymru i wella dealltwriaeth ac ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol, yn gadeirydd grŵp Partneriaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru, y mae ei waith yn canolbwyntio ar gynyddu gwydnwch digidol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru, ac yn gadeirydd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Trin Cam-drin  (NOTA) Cymru.

## Paul Burnside

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Bellach wedi ymddeol, roedd Paul yn Arolygydd Ditectif Diogelu'r Cyhoedd gyda Heddlu Swydd Gaerhirfryn ac yn Arolygydd arolygiadau Diogelu Plant Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Fe oedd awdur y gweithdrefnau gweithredu safonol cyntaf yn Swydd Gaerhirfryn mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan greu Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant cyntaf Bwrdd Diogelu Plant Swydd Gaerhirfryn, a'r llawlyfr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) cyntaf. Mae rôl bresennol Paul yng Nghanolfan y CSA yn cynnwys gweithio gyda heddluoedd ledled Cymru a Lloegr i ddeall yn well eu heffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a'i atal, a dylanwadu ar arfer da. Yn ogystal â hyn, gan ddefnyddio ein hymchwil a'n hadnoddau, mae Paul yn gweithio gyda'r tîm ehangach i lywio polisïau ac ymatebion cenedlaethol.

## Nici Evans

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Nici wedi gweithio ym maes gofal iechyd ers dros 25 mlynedd, gan ddechrau yn nyrs a darlithydd yn arbenigo ym maes canser a gofal lliniarol. Yn 2007, cafodd ei throchi yng nghymhlethdodau darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Bennaeth Partneriaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac yn swyddog arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â cham-fanteisio ar bobl ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Yn y rôl hon, datblygodd ei hangerdd dros weithio gyda phobl agored i niwed a sefydlodd brosesau amlasiantaeth cadarn i gefnogi'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw a dioddefwyr a goroeswyr masnachu pobl a chaethwasiaeth yng Nghaerdydd. Mae hi'n parhau i fod â chysylltiadau cryf â meysydd nyrsio, iechyd, gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i asiantaethau cyfiawnder troseddol ledled Cymru. Mae Nici yn seicotherapydd cofrestredig gyda UKCP, ac mae'n gweithio mewn ysgol gyfun leol yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc ac ymarfer ar lawr gwlad. Gan ddefnyddio ei gwybodaeth a'i phrofiad o weithio ym maes cam-fanteisio’n rhywiol a throseddol ar oedolion – gan gynnwys cefnogi goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol – ymunodd Nici â Chanolfan y CSA yn 2019 yn Gynghorydd Gwella Ymarfer yng Nghymru. Mae'r rôl hon yn dwyn ynghyd brofiad gwaith oes i gefnogi datblygiad parhaus dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar lefelau gweithredol a strategol ledled Cymru.

## Shauna Breen

### Cynghorydd Gwella Ymarfer, Canolfan y CSA

Mae Shauna yn arbenigwr ym maes cam-fanteisio’n rhywiol ar blant, ar ôl treulio 16 mlynedd yn cefnogi plant; gan gynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, yn strategol, ac mewn rolau rheoli. Mae ganddi brofiad o ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni’r sector gwirfoddol yn rheolwr gwasanaeth a sicrhau cyllid i helpu plant a’u teuluoedd sy’n wynebu anawsterau. Dros gyfnod ei gyrfa, mae Shauna wedi gweithio mewn nifer o sefydliadau megis Barnardo's, Cymdeithas y Plant a Chymorth i Fenywod Birmingham a Solihull. Mae hi hefyd wedi gweithio i sefydliadau statudol, lle bu’n arbenigo ym maes niwed y tu allan i'r teulu ac o fewn y teulu, gan ganolbwyntio ar lunio newid systematig i wella’r ymateb i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan faterion megis cam-fanteisio’n rhywiol ar blant, masnachu pobl a thrais difrifol gan bobl ifanc.

# Cymorth:

### New Pathways

Yn Abertawe, bydd **New Pathways** yn ymuno â ni, sef sefydliad sy'n cynnig cymorth arbenigol i oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan drais, cam-drin rhywiol neu gam-drin.

Siaradwch â nhw ar y diwrnod i ddysgu popeth am y gwasanaeth maen nhw'n ei gynnig i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol. Bydd croeso i chi gael sgwrs gyda nhw os ydych chi wedi cael eich effeithio gan unrhyw bwnc sydd wedi'i godi yn ystod y cyflwyniadau a'r gweithdai – maen nhw yma i'ch cefnogi.

# Sefydliadau Gwadd:

Yn ogystal â'n siaradwyr a'n cyflwyniadau, bydd nifer o sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill sy'n gweithredu yn y De ac a all eich helpu i ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn ymuno â ni hefyd. Cewch ymweld â'u stondinau yn ystod egwyliau rhwng cyflwyniadau i holi am eu gwaith a sut y gall eich cefnogi.

**Ewch i wefan Canolfan y CSA www.csacentre.org.uk i gyrchu ei holl adnoddau ac ymchwil, a chofrestru ar gyfer ei chylchlythyr misol www.csacentre.org.uk/newsletter/ i ddysgu am ei gwaith diweddaraf.**